**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau , Dydd Iau, 22 Hydref 2020**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Anton Sampson a'r Cynghorydd Glenn Swingler. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Datganodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies gysylltiad personol ag eitem 4 ar y rhaglen, 'Cofnodion' gan ei fod yn aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.<br><br>Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitem 5 ar y rhaglen, 'Effaith Adolygiad Addysg Gynradd Rhuthun':<br><br>Y Cynghorydd Huw O Williams – mae'n rhiant i ddisgybl sy'n mynychu un o'r ysgolion<br>Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Cefn Meiriadog<br>Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts – mae'n Rhiant a Llywodraethwr yn Ysgol Pen Barras<br>Y Cynghorydd Merfyn Parry – mae'n Llywodraethwr yn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor<br>Aelod Cyfetholedig Neil Roberts – mae'n Llywodraethwr yn Ysgol Borthyn<br>Y Cynghorydd Cheryl Williams – mae'n Llywodraethwr yn Ysgol Crist y Gair<br>Y Cynghorydd Emrys Wynne – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Borthyn<br>Y Cynghorydd Martyn Holland – mae'n Llywodraethwr yn Ysgol Bro Famau<br>Y Cynghorydd Andrew Thomas – mae'n llywodraethwr yn un o ysgolion y sir<br>Y Cynghorydd Tina Jones – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Melyd<br>Y Cynghorydd Graham Timms – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Dinas Brân, Llangollen |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | **Adolygu Penderfyniad y Cabinet o ran Gwaredu Tir Wrth Ymyl Ysgol Pendref, Dinbych:**<br>Gwahoddodd y Cadeirydd yr Is-Gadeirydd i annerch y Pwyllgor o ran ymateb y Cabinet i argymhellion y Pwyllgor yn dilyn ei archwiliad o'r penderfyniad uchod. Er bod y Cabinet wedi trafod argymhellion y Pwyllgor yn fanwl ac roedd hanner aelodau'r Cabinet wedi cefnogi |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | argymhellion y Pwyllgor, roedd y Weithrediaeth wedi cadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol, ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd. Nododd Is-Gadeirydd y Pwyllgor ei siom gyda'r canlyniad, a holodd a allai'r Pwyllgorau Craffu fyth berswadio'r Cabinet i adolygu eu penderfyniadau.<br><br>Dywedodd aelodau Gweithrediaethau a oedd yn bresennol yn y cyfarfod presennol eu bod o'r farn bod y Pwyllgor Craffu wedi dal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif a'u bod wedi creu trafodaeth adeiladol. Roedd nifer o faterion wedi codi a oedd yn debygol o gael eu hystyried wrth benderfynu ar bolisi cynllunio yn y dyfodol. Roedd defnyddio'r bleidlais fwrw wedi amlygu bod Cabinet y Cyngor yn gytbwys, a'i fod yn cynnwys aelodau â gwahanol safbwyntiau. |
| **4** | COFNODION | Roedd cytundeb ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Ni chymerwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.<br><br>***<u>Penderfynwyd:</u> - derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 3 Medi 2020 fel cofnod cywir.*** |
| **5** | EFFAITH ADOLYGIAD ADDYSG GYNRADD RHUTHUN | Cafwyd pleidlais: 10 o blaid, 0 yn erbyn, 1 ymatal.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>***ar ôl ystyried y canfyddiadau yn yr adroddiad ac a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth -***<br><br>***(i) derbyn y wybodaeth am effaith Adolygiad Addysg Gynradd Rhuthun fel y'i haseswyd yn erbyn saith nod lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r*** |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | ***Dyfodol (Cymru) 2015;***<br>***(ii) cadarnhau, fel rhan o'i ystyriaeth, ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1);***<br>***(iii) bod adroddiad gwybodaeth yn cael ei baratoi i'w ddosbarthu i aelodau am yr effaith economaidd ar Rhewl yn dilyn cau'r ysgol fel rhan o adolygiad addysg gynradd Rhuthun;***<br>***(iv) bod gwybodaeth yn cael ei darparu i aelodau sy'n cynnwys ystadegau'r Arolwg o'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd ar draws Sir Ddinbych yn ddiweddar; a***<br>***(v) bod diolchgarwch aelodau yn cael ei gyfleu i holl staff yr ysgol, y Gwasanaeth Addysg a Gwasanaethau eraill y Cyngor am eu hymdrechion a'u hymrwymiad o ran sicrhau darpariaeth addysg a chefnogaeth i ddisgyblion y sir trwy gydol pandemig COVID-19.*** |
| **6** | POLISI BUDDION CYMUNEDOL | Roedd cytundeb ar yr argymhelliad trwy gonsensws.  Ni chymerwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.<br><br>***<u>Penderfynodd y Pwyllgor:</u> - ar ôl ystyried y polisi -***<br><br>***(i) cefnogi ei nodau a'i amcanion;***<br>***(ii) cadarnhau, fel rhan o'i ystyriaeth, ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2); ac***<br>***(iii) argymell o ran tudalen 4 y polisi, dan yr adran 'Mentrau Cynaliadwyedd Amgylcheddol', bod y geiriau "cyfyngu ar lygredd" yn cael eu disodli â "cyfyngu ar lygredd lle bo'n bosibl".*** |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | |
| **7** | ARCHIFAU GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU A CHARCHAR RHUTHUN | Cafwyd pleidlais: 6 o blaid, 1 yn erbyn, 0 ymatal.<br><br>Ar ôl rhoi ystyriaeth i'r adroddiad am Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru a Charchar Rhuthun, gwnaeth y Pwyllgor:<br><br>***Benderfynu:***<br><br>***(i) nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma a chefnogi'r cynigion ar gyfer defnyddio Carchar Rhuthun yn y dyfodol;***<br>***(ii) cofnodi pryderon nad oedd unrhyw gynlluniau wrth gefn yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer yr Archifau na'r cynnig treftadaeth yng Ngharchar Rhuthun, pe na bai'r cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol am gyllid i ddatblygu Hyb yn yr Wyddgrug ar gyfer Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru yn llwyddiannus; a***<br>***(iii) bod canlyniadau Ymgynghoriad Mynediad presennol Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru yn cael eu dosbarthu i aelodau er gwybodaeth.*** |
| **8** | RHAGLEN WAITH CRAFFU | Roedd cytundeb ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Ni chymerwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.<br><br>***Penderfynwyd:*** ***ar ôl rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth a ddarparwyd, ac yn amodol ar yr*** |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | ***arsylwadau a'r awgrymiadau uchod -***<br><br>***(i) cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor; a***<br>***(ii) bod cyfarfod ychwanegol yn cael ei drefnu ar gyfer dechrau mis Chwefror 2021 i ystyried materion sy'n ymwneud â Phrosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff*** |
| **9** | ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU | Ni chafwyd adborth. |